



*Gwelsom yn ein rhifynnau blaenorol nad dydd arbennig yn ein calendrau yn unig yw'r Pentecost ac mai tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ei eglwys ac ar y byd yw 'y stori,' y creu o'r newydd, yr ymweliad, y tân ysol sy'n parhau i weithio hyd heddiw. Dyma gyfle i ddwyn ein cyfres o fyfyrddodau i ben trwy ofyn ai'r Ysbryd Glân yw'r person coll yn ein plith?*

Plant yn cymeryd rhan mewn gwasanaeth rhywdro, ac yn adrodd y Gyffes Fer. Y plentyn cyntaf yn dweud, 'Credaf yn Nuw Dad'; yr ail yn dweud, 'Credaf yn Iesu Grist'; yna distawrwydd. Ond dyma un yn dweud, 'Mae'r plentyn sydd i fod i ddweud "Credaf yn yr Ysbryd Glân", adref yn sâl; dydy o ddim gwahaniaeth yn nag ydi; mi wnawn ni'n iawn hebdo.'

Ai dyna ydi'r drwg heddiw yn ein cymdeithas, ein bod yn meddwl, 'na, dydi o ddim gwahaniaeth am yr Ysbryd Glân, ac y gallwn ni wneud yn iawn hebdo?'

### Pwy ydi'r Ysbryd Glân?

Mi ydan ni wedi cael ein dysgu pan yn ifanc iawn, mai trydydd person y Drindod ydi o. Person, sef Duw yn ein plith.

Be mae o'n ei olygu i ni heddiw?


Pe baem yn gofyn i bobl, be mae nhw'n ei feddwl, be fyddai yr ateb tybed?

Ai y syniad ydi, 'Na dydy o ddim gwahaniaeth amdano, a phobl ddim yn sylweddoli ei ddylanwad ar galonau pobl.'

### Effeithiau'r Ysbryd

Mi ydan ni'n clywed sôn am yr Ysbryd Glân drwy'r Beibl, yn disgyn ar wahanol bobol, yn ysbrydoli pobl i sôn am waith a chariad Duw, a Iesu Grist ei hun yn dweud fod Ysbryd yr Arglwydd arno. Mi ydan ni'n gwybod stori Llyfr yr Actau pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glân ar y

## Y Person Coll?



*Gwnaeth bopeth yn  
hyfryd yn ei amser,  
a hefyd rhoddodd  
dragwyddoldeb yng  
nghalonau pobl;  
eto ni all neb  
ddirnad yr hyn a  
wnaeth Duw o'r  
dechrau i'r diwedd.*

disgyblion ar Ddydd y Pentecost, fel gwynt nerthol yn chwythu, a thafodau tân yn disgyn ar y disgyblion nes oeddynt yn gallu siarad mewn tafodau, a phawb o bob gwlad yn eu clywed, a thair mil yn dod i greu.

'Roedd sŵn a dychryn ar y diwrnod hwnnw, yn Jerusalem, a phan dorrodd y diwygiadau allan mewn gwahanol wledydd, ac yng Nghymru hefyd, wrth gwrs. Daeth pobol i weld mai tywalltiad o'r Ysbryd Glân oedd o, ac ardaloedd cyfan yn gweddio drwy'r nos oherwydd ei effaith.

### Diwygiad

Ond beth am heddiw? Does yna ddim diwygiad, dim gwynt nerthol yn rhuthro, er na wyddom ni ddim pa bryd y daw hynny, ond mae'r ysbryd Glân yn trigo yn ein calonau, yn dawel bach mae yn ein harwain ar y ffordd iawn, yn ein

cynnal, yn rhoi nerth i ni. Heb yr Ysbryd Glân, fyddai pobl byth yn dod i greu yn Iesu Grist, fyddem ni erioed wedi teimlo cariad Duw yn ein bywyd. Heb yr Ysbryd i oleuo Gair Duw i ni, allwn ni byth glywed Duw yn siarad hefo ni drwyddo.

'Tyrd Ysbryd Glân i'n c'lonnau ni' ac yno y mae, fel yr addawodd Iesu Grist i'w ddisgyblion, 'Ac fe ofynnaf innau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chi am byth'.

Tydi hi'n braf arnom ni yn gwybod fod yr Ysbryd hefo ni am byth.

Mewn ambell oedfa, pan mae'r criw bach ar eu

gliniau, mae yr Ysbryd yn llenwi'r ystafell, a'i effaith ar galon ac enaid yn bellgyrhaeddol. Fe'i teimlir yn agos pan mae penderfyniad i'w wneud a hebdo, ni allwn deimlo ewyllys Duw ar ein cyfer. Dyna ein braint ei fod yn trigo yn ein calonau ni.

### Tân a Dylanwad

Diolchwn adeg y Pentecost am y gwynt nerthol yn rhuthro, am y tafodau tân ar y disgyblion, a'r siarad mewn tafodau, a diolchwn hefyd am ddylanwad tawel yr Ysbryd ar eu bywydau bob dydd.

O Ysbryd byw dylifa drwom,  
Bywha dy waith a grym y groes,  
O ysbryd byw, tyrd gweithia ynom,  
Cymhwysa ni i her ein hoes.

*Parch Olwen Williams,  
Llywydd y Gymdeithasfa  
yn y Gogledd*